## PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd 7 Gorffennaf, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Miss. A.M. Collins (Cadeirydd); Y Cynghorydd Ms. J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J.C. Bird, Ms. B.E. Brooks, Mrs. C.A. Cave, Mrs. S.M. Hanks, Mrs. R. Nugent-Finn, A.C. Parker a Mrs. S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: Ms. H. Smith (Cynrychiolydd o'r Gweithgor / Panel Tenantiaid) a Ms. C. Ireland (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a Bro Morgannwg Cynrychiolydd) Cynghorwyr Mrs. J.E. Charles ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

187 CYHOEDDIAD -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Cadeirydd y datganiad canlynol: "Hoffwn atgoffa pawb a fydd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i gofnodi drwy'r rhyngrwyd a chaiff y recordiad hwn ei archifo i'w wylio yn y dyfodol".

188 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Y Cynghorydd L.O. Rowlands; Mrs. W. Davies, Mrs. G. Doyle a Mr. A. Raybould (Cynrychiolwyr o'r Gweithgor / Panel Tenantiaid).

189 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

190 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

191 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2020/21 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet o 7 Mehefin, 2021 i'r Pwyllgor gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu, gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd hynny dan gylch gorchwyl y Pwyllgor.

Tynnodd yr adroddiad sylw at y fframwaith cyfreithiol ynghylch diogelu a thynnodd sylw'r Pwyllgor at y canlynol:

- Roedd Adran Adnoddau Dynol y Cyngor wedi gweithredu system drosglwyddo electronig ac ar-lein ar gyfer gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) er mwyn cyflymu'r broses, gyda'r canlyniad bellach ar gael yn y rhan fwyaf o achosion o fewn 24-48 awr;
- Ers i Gyngor Bro Morgannwg fabwysiadu Strategaeth Ranbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), roedd gwaith wedi bod yn mynd rhagddo er mwyn cefnogi hyn fel staff Tai yn parhau i fynychu cyfarfodydd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR) gyda phartneriaid eraill er mwyn mynd i'r afael â cham-drin domestig; a'r cyllid cyfalaf parhaus ar gyfer 'targedu gwella' 97 o gartrefi dioddefwyr cam-drin domestig ym Mro Morgannwg yn ystod 2020/21;
- Roedd y pandemig wedi effeithio ar ddarparu gwasanaethau; fodd bynnag, roedd gweithgarwch diogelu wedi parhau yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymunedau lleol yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn.  Er enghraifft, er gwaethaf y gostyngiad mewn ymweliadau wyneb yn wyneb neu gartref â thenantiaid sy'n agored i niwed ac eraill, gan staff y gwasanaeth Tai oherwydd y pandemig, roedd staff wedi cynnal dros 1,200 o wiriadau lles dros y ffôn ar aelwydydd sy'n agored i niwed dros y 12 mis diwethaf, a oedd hefyd wedi helpu i nodi pobl nad oeddent wedi eu hadnabod yn flaenorol fel rhai sy’n agored i niwed ac roedd wedi sbarduno gweithredu prosiect Proffilio Tenantiaid newydd er mwyn nodi anghenion, ynghyd â'r cymorth y gellid ei ddarparu drwy'r Siop Un Stop nawr;
- Roedd staff tai wedi parhau i gael eu hyfforddi ynghylch diogelu (fel rhoi ar waith yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Lefel 2 o’r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol), yn ogystal â diogelu fel eitem safonol ar yr agenda mewn cyfarfodydd staff ac un i rai misol er mwyn rhannu arfer gorau a diweddariadau;
- Cynrychiolwyd y gwasanaeth Tai hefyd ar Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.  Roedd Swyddog Tai hefyd wedi'i hyfforddi i allu cynnal Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, naill ai fel y Cadeirydd neu'r Adolygydd;
- Defnyddio'r Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (FfAA) ac atgyfeiriadau Diogelu Oedolion yn barhaus er mwyn rhannu gyda phartneriaid (fel y Gwasanaethau Cymdeithasol) a thrwy hynny helpu i ddarparu cymorth ynghylch tai ac anghenion eraill i bobl cyn gynted â phosibl;
- Gwnaed 1,481 o atgyfeiriadau i'r Tîm Diogelwch Cymunedol (TDC) yn 2020/21, wedi'u didoli yn ôl gwahanol gategorïau, a gyda mesurau amrywiol yn cael eu defnyddio gan y TDC er mwyn mynd i'r afael â'r rhain, megis defnyddio Gorchmynion Gwaharddeb Sifil;
- Roedd rhaglen Panel y Sianel (Prevent), sy'n canolbwyntio ar ddargyfeirio pobl sy'n agored i niwed rhag cymryd rhan mewn gweithredoedd terfysgaeth, wedi gweld 4 atgyfeiriad wedi'u mabwysiadu yn 2020/2021 ac ni fabwysiadwyd 1; roedd hyn yn gwrthgyferbynnu â 2019/20 lle na fu unrhyw atgyfeiriadau o'r fath;
- Ynghylch y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR)
  - Roedd GRhR wedi delio â 114 o achosion o Droseddau ar Stepen y Drws a 112 o Sgamiau (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phecynnau prawf

COVID ffug yn cael eu cynnig i'w gwerthu) ac roeddent wedi bod yn rhan o nifer o erlyniadau llwyddiannus yn erbyn fasnachwyr twyllodrus ac eraill yn ogystal â helpu i gael iawndal i'r dioddefwyr;

- Roedd GRhR hefyd wedi defnyddio hyfforddiant ar-lein, o bell i bartneriaid, a gwasanaethau rheng flaen er mwyn darparu cyngor ataliol allweddol;
- Yn olaf, roedd GRhR hefyd wedi gosod y gwasanaeth 'rhwystrwr galwadau' ar gyfer 59 o aelwydydd pobl oedrannus ac agored i niwed i atal galwadau niwsans neu alwadau maleisus, yn ogystal ag ymweld ag eiddo yr amheuir ei fod yn gwerthu poteli ocsid nitraidd i blant a delio â hwy, a hefyd eu gwaith parhaus yn ymwneud â thrwyddedu gyrwyr tacsis.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau dilynol a godwyd gan y Pwyllgor, dywedodd y Swyddog y canlynol:

- O ran yr ymholiad a godwyd gan y Cadeirydd, roedd GRhR wedi rhoi cyhoeddusrwydd eithaf eang i'r cyfleuster blocio galwadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ar y cyd â'r gwaith a wnaed gan y Comisiwn Gwybodaeth er mwyn atal galwadau sgam o'r fath yn y ffynhonnell, ond roedd hyn yn anodd ei ddileu oherwydd dyfeisgarwch y troseddwyr dan sylw ac oherwydd eu bod yn gweithredu'n bennaf o dramor. I'r tenantiaid hynny nad oeddent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol neu a oedd yn rhan o'r 'rhai a eithriwyd yn ddigidol', roedd y Byrddau Preswylwyr wedi helpu tenantiaid o'r blaen i nodi 'sgamiau' posibl ar-lein neu dros y ffôn a byddai paneli o'r fath yn parhau i ledaenu gwybodaeth i breswylwyr, ochr yn ochr ag ailddechrau'r cylchlythyr chwarterol ar gyfer tenantiaid y Cyngor wrth i'r pandemig leddfu. Byddai'r Swyddog hefyd yn cefnogi'r pryderon a'r adborth ynghylch codi proffil blocio galwadau i GRhR er mwyn iddynt weithredu.
- Mewn perthynas ag ymholiad yr Is-Gadeirydd, roedd Panel y Sianel hefyd yn ymdrin â'r unigolion hynny a oedd mewn perygl o gymryd rhan mewn terfysgaeth asgell dde eithafol a gweithgareddau eithafol.
- Ynghylch ymholiad yr Is-Gadeirydd ar ddyrannu eiddo i gyn-droseddwyr, eglurodd y Swyddog ei bod yn ofynnol dan ddeddfwriaeth i'r Cyngor ddarparu llety a chymorth addas i rai grwpiau 'blaenoriaeth' ag anghenion tai megis cyn-droseddwyr. Fel rhan o hyn byddai angen asesiad risg ar y cyd â'r Gwasanaeth Prawf cyn iddynt gael eu rhyddhau. Po fwyaf yw difrifoldeb y drosedd, y mwyaf fyddai angen lefel yr asesiad risg, gan gynnwys cysylltu â nifer fawr o asiantaethau allweddol, gan gynnwys yr Heddlu. Y nod oedd 'torri' y cylch aildroseddu drwy ddarparu llety a chymorth addas, gweithio gyda Chefnogi Pobl, y troseddwyr eu hunain, sefydliadau'r Trydydd Sector a'r Gwasanaeth Prawf er mwyn cynnal eu tenantiaeth.
- O ran yr ymholiad gan y Cynghorydd Mrs. Perkes am y cynllun gwella diogelwch, teimlai'r mwyafrif llethol o ddefnyddwyr y gwasanaeth hwn yn llawer mwy diogel yn eu cartrefi ac arhosodd yn eu heiddo o ganlyniad, gyda mesurau o'r fath yn gweithredu fel rhwystr. Lle ceisiodd cyflawnwyr, yn y nifer fach o achosion, gael mynediad i eiddo wedi'i wella o ran diogelwch, roedd defnyddio larymau a'r mesurau eraill a osodwyd ynddo yn sicrhau ymateb a gweithredu cyflym gan yr heddlu. Byddai'r Swyddog hefyd yn rhoi rhagor o fanylion ac ystadegau ynghylch effeithiolrwydd gwella diogelwch i'r Pwyllgor.

- Ynghylch ymholiad Ms Smith (Cynrychiolydd Tenantiaid) ar flocio galwadau, roedd y gwasanaeth ar gael i holl drigolion Bro Morgannwg a byddai'r Swyddog yn cadarnhau a oedd unrhyw gostau'n gysylltiedig â gosod hyn.

Gwnaeth y Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo y canlynol

ARGYMHELLWYD – Dylid nodi Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2020/21.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

192 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 MAI 2021 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Cyllid yn ymwneud â'r sefyllfa'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod hwn. Dywedodd y Rheolwr Cymorth Cyllid wrth y Pwyllgor:

- Rhagwelwyd y byddai'r cyllidebau refeniw ar gyfer y gwasanaethau dan gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn fwy na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, er y byddai angen i Lywodraeth Cymru barhau i ariannu rhai meysydd oherwydd y pandemig parhaus;
- Unwaith eto, ni fyddai'r targed arbedion o £75,000 ar gyfer teledu cylch cyfyng yn cael ei gyflawni eleni ac oni bai y gallai tanwariant mewn mannau eraill o fewn y gwasanaeth gwmpasu'r arbediad hwn, byddai angen tynnu cyllid i lawr o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn talu am y diffyg hwn a gorffen yn gyfartal;
- Roedd targed effeithlonrwydd o £6,000 hefyd wedi'i bennu ar gyfer gwasanaethau dan y Pwyllgor hwn;
- O ran y gyllideb gyfalaf, y gyllideb gymeradwy, gan gynnwys llithriant a gymeradwywyd o 2020/21, oedd £48.652m ar hyn o bryd;
- Mae'r tri phrosiect cyfalaf canlynol yn arbennig o bwysig i'r Pwyllgor:
    - Pentref Pobl Hŷn Penarth, gyda chyllid o £300,000 drwy arian mewnol a gariwyd ymlaen o'r llynedd;
    - Porth Canol Tref Y Barri, a oedd yn cynnwys datblygu dau safle ar safle cyfansawdd Pont Gladstone Road a chlinig Broad Street. Byddai hyn yn golygu dwyn ymlaen £100,000 o Raglen Gyfalaf 2022/23 i 2021/22 ar gyfer gwaith dichonoldeb a dylunio; a
    - GALLUOGI cyllid grant o £177,300 ar gyfer gwaith cyfalaf ar addasiadau i helpu gyda'r preswylwyr hynny sydd ag anghenion byw â chymorth.

Gwnaeth y Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo y canlynol

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

193 CAU CYFRIFON 2020/21 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Cyllid ynghylch y sefyllfa gyllidebol alldro dros dro ar gyfer Ebrill 2020 – Mawrth 2021. Roedd y ffigurau'n rhai dros dro nes bod y cyfrifon wedi'u harchwilio gan Archwilio Cymru, a gyda'r disgwyliad y byddai'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, yn dilyn archwiliad, yn ystod mis Medi 2021.

Yn ogystal, dywedodd y Rheolwr Cymorth Cyllid wrth y Pwyllgor:

- Byddai sefyllfa'r gyllideb refeniw diwedd blwyddyn yn gweld amrywiant anffafriol o £7,000 ar ôl trosglwyddiad net i gronfeydd wrth gefn o £132,000, a hynny oherwydd:
    - Amrywiant ffafriol o £149,000 gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (yn bennaf oherwydd cyllidebau staffio) ac £88,000 ar gyllideb sylfaen y Gwasanaethau Rheoleiddio (a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn);
    - Adennill Grantiau Tai a Thai Sector Preifat Cronfa'r Cyngor ar ôl trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn ac oddi ar y cronfeydd wrth gefn; ac
    - Amrywiant anffafriol o £156,000 ar gyfer Lwfansau Rhent Tai'r Sector Preifat.
- Ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) roedd gwarged o £4 miliwn am y flwyddyn. Gan fod diffyg wedi'i gyllidebu o £7 miliwn, roedd amrywiant ffafriol cyffredinol o £11m;
- Roedd yr amrywiant mwyaf yn ymwneud â chyllideb Gwariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw, gyda thanwariant o bron i £10 miliwn, gan fod gwariant cyfalaf Cyfrif Refeniw Tai wedi gostwng oherwydd y pandemig;
- Dangosodd y Rhaglen Gyfalaf amrywiant ffafriol o £12 miliwn, yn bennaf oherwydd yr oedi a achoswyd gan y pandemig ac roedd wedi arwain at gymeradwyo £10 miliwn dan bwerau brys i 2021/22;
- Amlinellodd y rhestr o gronfeydd wrth gefn y cydbwysedd agoriadol, symudiadau yn ystod y flwyddyn a'r cydbwysedd cau o 31 Mawrth 2021 ar gyfer y meysydd sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

194 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2020/21 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad perfformiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu, a amlinellodd gynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (1 Ebrill, 2020 i 31 Mawrth, 2021, yn ogystal â throsolwg o berfformiad diwedd blwyddyn) tuag at gyflawni ei ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol (2020/21) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Tynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu sylw at y canlynol:

- Er gwaethaf yr heriau yr oedd y Cyngor wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig (gan gynnwys Tai a'r meysydd gwasanaeth eraill a ddaeth o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn), perfformiad cyffredinol y Cyngor oedd 'Melyn' a oedd yn eithriadol ac yn ddatblygiad cadarnhaol o ystyried y blaenoriaethau a'r materion yr oedd y Cyngor wedi'u hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf;
- Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 60% (141 allan o 234) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor sy'n adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter a hynny dan amgylchiadau heriol. Priodolwyd statws Coch i 40% (93) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd. O'r 93 o gamau gweithredu a gafodd statws perfformiad Coch ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 91% (85) yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau ailflaenoriaethu gwasanaethau a gynhaliwyd mewn ymateb i effaith y pandemig parhaus;
- O'r 149 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd am ddata ar gyfer 64 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 62% (42) o'r mesurau , statws Melyn i 9% (6) ac i 29% (20) statws Coch. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol i 90, oherwydd naill ai'r angen i sefydlu perfformiad sylfaenol ar gyfer y flwyddyn neu oherwydd mesurau ailflaenoriaethu a gynhaliwyd mewn ymateb i effaith pandemig parhaus COVID-19. Mewn perthynas â'r 2 mesur a gafodd statws Coch, roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at fethu'r targed ym mhob achos;
- Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 69% (24 allan o 35) a statws Coch i 31% (11). O'r 11 a gafodd statws perfformiad Coch, nodwyd effaith COVID-19 fel ffactor cyfrannol yn y llithriant a gofnodwyd ar gyfer 10 o'r camau gweithredu. O'r 14 mesur a adroddwyd, priodolwyd statws Gwyrdd i 10 a phriodolwyd statws Melyn i 2. O ran y mesurau perfformiad MAC/015 (diwrnodau cyfartalog a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl), MAC/036 (unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fesul 10,000 o aelwydydd, a phriodolwyd statws coch i CPM/096 (canran yr holl aelwydydd lle llwyddodd cam atal cadarnhaol i atal/lliniaru digartrefedd). Mewn perthynas â'r ddau fesur a gafodd statws Coch, roedd effaith y pandemig wedi cyfrannu at golli'r targed, fel amharodrwydd trigolion i waith gael ei wneud yn eu cartrefi yn ystod y pandemig fel rhan o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac oedi i Raglenni Cyfalaf o amgylch tai fforddiadwy.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau dilynol a godwyd gan y Pwyllgor, dywedodd y Swyddog y canlynol:

- Ynghylch ymholiad yr Is-Gadeirydd ynghylch nodi 'mannau problemus' ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu a defnyddio'r teledu cylch cyfyng symudol, nododd Bro Ddiogelach feysydd o'r fath gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd gan y gymuned leol, adroddiadau'r heddlu a gwybodaeth am feysydd sydd wedi cael problemau o'r blaen. Roedd teledu cylch cyfyng symudol (y gellir ei gysylltu a'i symud i wahanol leoliadau ac wedi'i gysylltu ag eitemau fel lampau) wedi'i ddefnyddio mewn 'mannau poblogaidd' fel Chicken Wood, Aberogwr, Trwyn y Rhws a Pharc Romilly. Byddai camera teledu cylch cyfyng symudol ychwanegol yn cael ei brynu yn y dyfodol agos ac roedd camera teledu cylch cyfyng presennol wedi'i fenthyg i Wasanaethau Glanhau'r Cyngor er mwyn monitro ardaloedd yr oedd 'tipio anghyfreithlon' yn effeithio arnynt. Yn wahanol i'r camerâu sefydlog hŷn, roedd y teledu cylch cyfyng symudol yn ystwyth a gellid ei ddefnyddio lle bo angen. Gofynnwyd i'r Aelodau roi gwybodaeth i'r Swyddog am unrhyw 'fannau problemus' o weithgarwch gwrthgymdeithasol a gweithgarwch arall (fel graffiti a fandaliaeth) yr oeddent yn teimlo eu bod yn bodoli yn eu cymunedau er mwyn defnyddio'r teledu cylch cyfyng symudol a nodi unrhyw gyflawnwyr dan sylw.

Roedd y Pwyllgor hefyd am ddiolch i'r Tîm Tai a'r gwasanaethau eraill dan gylch gorchwyl y Pwyllgor am eu gwaith yn ystod y pandemig ac, er gwaethaf yr heriau yr oeddent wedi'u hwynebu, am sgorio 'melyn' cyffredinol mewn perfformiad, yn ogystal â chyflawni 'gwyrdd' mewn rhai ardaloedd a'u gwaith parhaus wrth fynd i'r afael â'r meysydd perfformiad hynny a ystyriwyd yn 'goch'.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, mae'r Pwyllgor Craffu wedi nodi

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi’r canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi’r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o dan-berfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) Nodi’r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy Strategaeth Adfer y Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

195 ARGYMHELLIAD CRAFFU CHWARTER 1AF OLRHAIN 2021/22 AC AMSERLEN RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22. (RG) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol a'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ei hystyried.

Tynnodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu sylw'r Pwyllgor at y canlynol:

- O ran yr argymhelliad anghyflawn o'r cyfarfod ym mis Ebrill 2021, yn ymwneud â gwasanaeth Cydlynwyr Asesu ac Atgyfeirio Cam-drin Domestig (CAACD) ac ymgysylltu â grwpiau cymorth, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu y byddai'r darparwr gwasanaethau cam-drin domestig sydd newydd ei gomisiynu, Atal y Fro, yn ceisio helpu i adeiladu grŵp neu grwpiau 'Hadau' ym Mro Morgannwg ar y cyd â phartneriaid. Sefydlwyd y grwpiau hyn mewn mannau eraill yng Nghymru a'r DU, sy'n cynnwys menywod sydd wedi goroesi cam-drin domestig, a ffurfiodd grwpiau hunangymorth. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu y byddai mewn cysylltiad â'r Aelodau Pwyllgor hynny, megis yr Is-Gadeirydd a'r Cynghorydd Mrs. Perkes, a oedd wedi mynegi diddordeb mewn helpu i adeiladu grŵp hunangymorth o'r fath. Ni fyddai'r argymhelliad hwn wedi'i gwblhau hyd nes y gwnaed diweddariadau pellach a'r cynnydd a wnaed arno;
- Ar gyfer yr argymhelliad anghyflawn o 2019 ar gyfer digwyddiad FestiVale, byddai'r statws nawr yn cael ei newid i'w gwblhau gan na fyddai'n mynd yn ei flaen yn 2021 a byddai'n rhan o adroddiad i'r Pwyllgor yn y dyfodol;
- Byddai'r argymhelliad, hefyd o 2019, ar gyfer adroddiad yn nodi datrysiad tai priodol i'r Gymuned Teithwyr yn parhau i fod yn 'barhaus', gyda'r Pennaeth Tai ac Adeiladu yn dweud mai'r rheswm am hyn oedd bod y Cyngor yn chwilio'n barhaus am safleoedd amgen ac i fynd at asiantau tir, yn ogystal ag edrych ar ffyrdd o ddatblygu'r safle presennol. Yn dilyn y sylwadau a wnaed a'r ymholiadau a godwyd gan y Cynghorwyr Mrs Cave a Mrs Parker, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu fod Grŵp Swyddogion Mewnol wedi'i sefydlu i ailgomisiynu astudiaeth newydd o anghenion tai'r Gymuned Teithwyr. Hefyd, ni ellid gwneud amserlen bendant ar gyfer y broses hon ar hyn o bryd, oherwydd yr angen i adolygu'r astudiaeth ddichonoldeb a'r chwiliad parhaus am ddewisiadau amgen. Fodd bynnag, byddai'n codi pryderon yr Aelodau ynghylch amserlenni yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Tai Strategol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, mae'r Pwyllgor Craffu wedi nodi

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B yr adroddiad.

(2) Nodi bod y cam gweithredu a restrir fel rhai parhaus yn Atodiad B yr adroddiad (18 Medi 2019, Rhif Cofnod 299 – Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid – Adroddiad Monitro, Argymhelliad (2) Dylid rhoi gwybod i’r Pwyllgor Craffu am y FestiVale nesaf er mwyn bod yn bresennol) fel un a gwblhawyd.

(3) Nodi y dylid cymeradwyo’r Blaenraglen Waith Flynyddol wedi ei diweddaru gan y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Ystyrir nad oes angen ystyried yr argymhelliad mwyach oherwydd bod y digwyddiad dan sylw yn cael ei ail-werthuso fel rhan o adroddiadau i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

(3) Er gwybodaeth.